

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL
(MEMORANDWM RHIF 2)**

BIL Y LLUOEDD ARFOG

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru at unrhyw bwrpas sy’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil y Lluoedd Arfog (“y Bil”) yn Nhŷ’r Cyffredin ar 26 Ionawr 2021. Gwnaed y Bil a oedd yn destun cynnig cario drosodd ar 8 Chwefror ac fe'i hailgyflwynwyd ar 12 Mai. Ar 16 Mehefin cyflwynodd Llywodraeth y DU gyfanswm o dri deg un o welliannau ac mae dau ohonynt yn gwneud darpariaeth sy’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (Adran 13 isod). Cynhaliwyd Cam Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin ar 23 Mehefin 2021. Mae'r Bil i'w weld yn:
[Bil y Lluoedd Arfog — Biliau Seneddol - Senedd y DU](#)

Amcanion Polisi

3. Yr amcanion polisi a nodwyd gan Lywodraeth y DU yw:
 - Adnewyddu Deddf y Lluoedd Arfog 2006 (“Deddf 2006”) ac, wrth wneud hynny, parhau i orfodi'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n llywodraethu'r Lluoedd Arfog;
 - Cynnal effeithiolrwydd system gyfiawnder y gwasanaethau fel ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion y Lluoedd Arfog;
 - Ymgorffori Cyfamod y Lluoedd Arfog ymhellach yn gyfraith.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD).
5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â'r materion canlynol:
 - Parhad Deddf 2006;
 - Llysoedd gwasanaeth, gwrandawiaadau diannod ac awdurdodaeth;
 - Gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog;
 - Heddlu'r gwasanaeth: cwynion, camymddwyn etc;
 - Dedfrydu ac adsefydlu;
 - Pardynau ar ôl marwolaeth.

Yr wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

6. Gosododd Llywodraeth Cymru Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar 18 Chwefror 2021, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd gerbron Senedd y DU ar 26 Ionawr 2021. Yn dilyn etholiadau'r Senedd yn 2021 ac ailgyflwyno'r Bil ar 12 Mai ar ôl i'r sesiwn Seneddol newydd ddechrau, gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol newydd gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar 28 Mai.
7. Cadarnhaodd y memoranda fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i cyflwynwyd.
8. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am welliannau i'r Bil er mwyn sicrhau bod y cyrff iechyd a fydd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd sylw dyledus yng Nghymru yn adlewyrchu'r bwriad polisi. Felly, rydym yn croesawu cynnwys Gwelliannau 1 a 2 sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn sicrhau dull polisi cyson.
9. Byddai'r drafft blaenorol yn cymhwyso'r ddyletswydd sylw dyledus i'r awdurdodau iechyd arbennig hynny sydd wedi'u sefydlu o dan adran 22 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Byddai hyn yn cynnwys Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG a sefydlwyd mewn perthynas â Chymru o dan yr adran honno, ond sy'n gyrff i Gymru a Lloegr, ar ôl cael eu sefydlu ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer ei bwerau cyfatebol.
10. Ein safbwynt polisi yw mai dim ond awdurdodau iechyd arbennig a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru ac sy'n arfer swyddogaethau yng Nghymru yn unig (h.y. Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru) y dylid eu cynnwys yn y ddyletswydd. Ni fwriedir i unrhyw awdurdodau iechyd arbennig sydd wedi'u sefydlu ar y cyd - gan gynnwys Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG fod o fewn cwmpas y ddyletswydd.
11. Deallwn mai'r bwriad polisi yn Lloegr yw peidio â chynnwys unrhyw awdurdodau iechyd arbennig o fewn cwmpas y ddyletswydd, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u sefydlu ar y cyd â Gweinidogion Cymru. Mae darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â'r ddyletswydd fel y bydd yn gymwys yn Lloegr yn adlewyrchu hyn.
12. Er mwyn sicrhau nad yw'r awdurdodau iechyd arbennig hynny sydd wedi'u sefydlu ar y cyd yn dod o fewn cwmpas y ddyletswydd mewn perthynas â Chymru, cytunwyd ar y diwygiadau technegol a amlinellir isod gyda Llywodraeth y DU. Effaith y diwygiadau yw bod awdurdodau iechyd arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd sylw dyledus yng Nghymru, ac eithrio awdurdodau iechyd arbennig "trawsffiniol" – h.y. y rhai a

sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan y ddarpariaeth honno ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer pwerau statudol cyfatebol.

Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

13. Mae'r gwelliannau canlynol sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ac sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd wedi'u gwneud i'r Bil yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin:

- **“Amendment 1 - Clause 8, page 11, line 23, at end insert “other than a cross-border Special Health Authority”**

This amendment and amendment 2 exclude cross-border Special Health Authorities from the scope of section 343AB of the Armed Forces Act 2006.

- **Amendment 2 - Clause 8, page 12, line 10, at end insert—**

““cross-border Special Health Authority” means a Special Health Authority which is established under the National Health Service Act 2006 and the National Health Service (Wales) Act 2006 by virtue of—

(a) paragraph 1(2) of Schedule 2 to the National Health Service (Consequential Provisions) Act 2006, or

(b) the power under section 28 of the National Health Service Act 2006 and the power under section 22 of the National Health Service (Wales) Act 2006 being exercised together;”

This amendment and amendment 1 exclude cross-border Special Health Authorities from the scope of section 343AB of the Armed Forces Act 2006.”

Cytunwyd ar y gwelliannau hyn ac maent bellach yn rhan o'r Bil.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd

14. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr holl welliannau a osodwyd yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

15. Gofynnais am welliannau 1 a 2 er mwyn sicrhau bod y cyrff iechyd a fydd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd sylw dyledus yng Nghymru yn adlewyrchu'r bwriad polisi fel yr amlinellir uchod.

16. Yn ogystal, ysgrifennais at y Gweinidog Amddiffyn Pobl a Chyn-filwyr yn gofyn am welliant a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn gael **cydsyniad** Gweinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw newidiadau i gwmpas y cyrff neu'r swyddogaethau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd sylw dyledus. Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod y cais hwnnw ar y sail bod ymrwymiad presennol i **ymgyngori** ar unrhyw

newidiadau i ehangu cwmpas y ddyletswydd sylw dyledus i gynnwys cyrff a swyddogaethau eraill yn y dyfodol. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn datgan 'na fyddai unrhyw newidiadau o'r fath yn digwydd ond lle mae budd o wneud hynny ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, fel Llywodraeth Cymru, ac ar ôl i'r broses Seneddol briodol gael ei chynnal'.

17. Mae'r gwelliannau sy'n weddill yn ymwneud â meysydd y tu allan i gymhwysedd datganoledig y Senedd megis gweithredu'r Cyngor Amddiffyn, Ombwdsmon Cwynion Gwasanaeth a darpariaethau mewn perthynas â'r gwledydd datganoledig eraill. Gwrthodwyd gwelliant gan y gwrthbleidiau i ehangu cwmpas y ddyletswydd sylw dyledus i adrannau'r Llywodraeth.

Canllawiau statudol

18. Mae Llywodraeth y DU bellach yn ymgynghori â sector y Lluoedd Arfog yng Nghymru ar gynnwys y canllawiau statudol a fydd yn cyd-fynd â'r Bil. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y broses hon.

Yn dilyn adroddiadau Pwyllgorau'r Pumed Senedd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil

19. Yn dilyn y gwaith craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 8 Chwefror gan y cyn Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'i argymhelliad y dylwn fynd ar drywydd gwelliannau i'r perwyl ei bod yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi neu ddiwygio canllawiau neu ehangu cwmpas y ddyletswydd sylw dyledus, ysgrifennais at y Gweinidog Amddiffyn Pobl a Chyn-filwyr ar y mater. Fel y nodwyd uchod, gwrthodwyd y cais hwn.

Goblygiadau ariannol

20. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â Bil Lluoedd Arfog Llywodraeth y DU.

Casgliad

21. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddull Bil y Lluoedd Arfog sy'n ymdrin â'r DU i gyd i wella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol mewn perthynas â Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru a ledled y DU.
22. Rwy'n parhau i fod o'r farn y bydd y Bil yn caniatáu i ddarpariaethau ddod i rym ar yr un pryd ledled y DU ac mai Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau a llunwyr polisi o'r rhwymedigaethau a'r amgylchiadau unigryw sy'n wynebu Cymuned y Lluoedd Arfog.
23. Rwy'n cefnogi'r gwelliannau hyn gan Lywodraeth y DU i'r Bil.

Hannah Blythyn AS
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Mehefin 2021